y Dinesydd

CYLCHGRAWN NEWYDDION CYMRAEG CAERDYDD

1 EBRILL 1993   RHIF 192   65c I NI – AM DDIM I CHI   RHIFYN EIN HUGEINFED PENBLWYDD

# Yn dathlu'n ugain oed mewn cyfarfod cyffredinol agored

**Ugain mlynedd yn union ar ôl genedigaeth y Dinesydd, galwyd cyfarfod cyffredinol ar gyfer holl Gymry Cymraeg Caerdydd i oleuo llwybr y cylchgrawn i'r dyfodol.**

Gydag ymadawiad Shân Emlyn fel golygydd a chwmni Surrexit fel cyhoeddwyr, bydd y cyfarfod cyffredinol am 7.30pm nos Fercher, 7 Ebrill, yn galw am aelodau newydd i'r pwyllgor rheoli er mwyn cymryd lle mwyafrif y pwyllgor presennol sydd wedi bod wrth y llyw ers 1973.

Bydd gan holl ddarllenwyr y Dinesydd gyfle i roi eu safbwynt a'u barn, a chynnig syniadau am y ffordd ymlaen i'r cylchgrawn. Y bwriad hefyd yw ffurfio Grŵp Golygyddol a cheisio llunio tîm newyddiadurol er mwyn i'r Dinesydd allu adlewyrchu holl agweddau bywyd Cymraeg y brifddinas.

Bydd rôl pwyllgor newydd y Dinesydd yn un hanfodol dros y blynyddoedd nesaf wrth orfod ceisio llunio fframwaith farchnata lwyddiannus a allai gynnwys codi tâl am y cylchgrawn, codi nawdd i'w gynnal, a wynebu'r her o gystadlu am incwm hysbysebu â Cymru Heddiw, yr arch-gylchgrawn misol sy'n arfaethedig ar gyfer ei lansio yn yr hydref.

Eisoes comisiynwyd cwmni dylunio David Watkins i ymgymryd

*Parhad tudalen 4*

## BUSNESWYR CAERDYDD YN CLYMU CWLWM CYMRAEG

*Adroddiad, tudalen 3*



• Ceri Preece, Vyvyan Davies a Dafydd Hampson-Jones, sylfaenwyr Cwlwm Busnes, yn lansio'r fenter yng Nghastell Caerdydd *llun: Barry Webb*

## y Dinesydd

**BOB MIS MAE DROS 10,000 O BOBOL YNG NGHAERDYDD A THU HWNT YN DARLLEN Y DINESYDD.**

ER MWYN CYRRAEDD Y NIFER MWYAF POSIB O GYMRY CYMRAEG CAERDYDD FFONIWCH CATRIN YN SWYDDFA WERTHIANT Y DINESYDD

**0222 598243**


***Cyfraddau hysbysebion sylw (mono):*** tudalen lawn £350; hanner tudalen £180; chwarter tudalen £100; wythfed tudalen £60; pob colofn cm £7
***Cyfradd hysbysebion cyhoeddi:*** £15



Welsh National
**OPERA**
Cenedlaethol Cymru

NEW THEATRE

(0222) 394844
27, 29 Mai, 2, 5 Mehefin
am 7.15pm



CARLO RIZZI
yn arwain Campwaith
Rhamantus Tchaikovsky

# EUGENE ONEGIN

gyda
JASON HOWARD

CYNHYRCHIAD NEWYDD
Cenir yn Saesneg

ARCHEBWCH HEDDIW!

JASON HOWARD



# 24ᵃ EBRILL

**2.00pm, Y Swyddfa Gymreig, Caerdydd**

*Protest Dorfol dros*
**DREFN ADDYSG I GYMRU**

*Siaradwyr*
*Cynog Dafis A.S*
*Wyn Griffiths A.S*
*Elfyn Pritchard*
*Tony Schiavone*
*Helen Prosser*

CYSYLLTWCH Â SWYDDFA CAERDYDD 0222 486469



THEATR SHERMAN

*Theatr y Sherman*
*Senghennydd Road*
*Caerdydd*

*Swyddfa Docynnau:*
*0222 396844*

**NOS GWENER, 23 EBRILL, 8.00pm**
## SWING, JAZZ A RAZZMATAZZ
**BAROC MEWN CYNGERDD**
GYDA CHERDDORFA NIGEL HART,
A'U GWESTAI GILLIAN ELISA
*Tocynnau £7.50 (gostyngiadau £5.00)*

**NOS WENER, 30 EBRILL**
**A NOS SADWRN 1 MAI, 7.30pm**
## DAWNS Y DODO
**gan Tim Baker, Manon Eames a Ioan Hefin**
**Theatr Gorllewin Morgannwg**
Cissy ac Idris fu'n briod am dros 40 mlynedd sy'n mwynhau nawr y posibilrwydd o dragwyddoldeb gyda'i gilydd. Drama anghyffredin.
*Tocynnau £6.50 a £5.50 (gostyngiadau £4.50)*



# WELSH PROMS 93

CYFARWYDDWR ARTISTIG : DWAIN ARWEL HUGHES

**GORFFENNAF 15 - 24**



7 cyngerdd gyda rhai o gerddorfeydd gorau Prydain mewn wythnos o ddathlu cerddorol. Mae'r unawdwyr gwadd eleni yn cynnwys y pianyddion Cecile Ousset a John Lill a'r ffidlinydd György Pauk, a Cherddorfa Philharmonig Llundain, Cerddorfa Symffoni Gymreig y BBC, Cerddorfa Hallé ac eraill. Mae'r rhaglenni cyngerdd yn cynnwys gweithiau gan Tchaikovsky, Prokifiev, Dvořák, Bruch a Rachmaninov.

Mae taflen sy'n rhoi manylion yr holl raglen cyngherddau ar gael nawr – er mwyn cael eich copi am ddim ffoniwch Swyddfa Gyhoeddusrwydd Neuadd Dewi Sant ar (0222) 342611, est. 232.

Archebwch Becyn y Proms ac arbedwch hyd at 25% ar bris y tocynnau – er mwyn cael y seddi gorau posib a sicrwydd sedd ar gyfer y Noson Ola!

**Neuadd Dewi Sant**
**St David's Hall**

☎ (0222) 371236/235900

DINAS CAERDYDD · CITY OF CARDIFF

# RHIFYN 20 OED Y DINESYDD

Y Dinesydd, Parc Afon, Bridge Road, Ystum Taf, Caerdydd CF4 2JL
Ffôn 0222 578772 Fax 0222 567639 Gwerthiant Hysbysebion 0222 598243
Golygydd: Siân Emlyn 567438 Cyhoeddwyr: Sunrexit Argraffu: Treforest Printing Cyhoeddir â chymorth Cyngor y Celfyddydau © Y Dinesydd 1993

LLWYFAN BUSNES CYMRAEG I GAERDYDD

## Y GYMRAEG AR WEFUSAU BUSNESAU CAERDYDD

**CASTELL CAERDYDD** oedd y cefndir ar ddydd Mercher 24 Mawrth ar gyfer lansio Cwlwm Busnes Caerdydd a'r Cylch, fforwm newydd Gymraeg ar gyfer pobol fusnes yn ardal y brifddinas.

Daeth y cymhelliad dros sefydlu Cwlwm Busnes oddi wrth Siân Johnston, cynrychiolydd Menter a Busnes yng Nghaerdydd, a rhagwelir y bydd dros 300 o gwmnïau yn yr ardal yn ymaelodi â'r Cwlwm.

Ffurfiwyd Cwlwm Busnes gan Vyvyan Davies o grŵp dylunio PTP Design, Dafydd Hampson-Jones o'r broceriaid stoc Celtic Henderson Crosthwaite, a Ceri Preece o'r cyfreithwyr Hugh James Jones a Jenkins.

"Bydd Cwlwm Busnes yn rhoi cyfle i Gymry Cymraeg ym myd busnes leisio barn ar faterion a fydd yn effeithio arnyn nhw," meddai Dafydd Hampson-Jones.

**CWLWM BUSNES**

*Caerdydd a'r Cylch*

Anerchwyd y seremoni gan Emrys Evans, cadeirydd Menter a Busnes, ac wrth lansio Cwlwm Busnes dywedodd Syr Melvyn Rosser bod angen pwysleisio'r angen am ddefnyddio'r Gymraeg mewn ffyrdd ymarferol.

Ychwanegodd Emrys Evans bod gan y Gymraeg le mewn bywyd economaidd, a bod Menter a Busnes yn derbyn mwy a mwy o ymholiadau am y defnydd o'r Gymraeg mewn busnes.

Meddai Ceri Preece, "Bydd Cwlwm Busnes yn darparu fforwm bwysig ar gyfer y Cymry Cymraeg ym myd busnes yn y de-ddwyrain a fydd yn eu galluogi i gwrdd a thrafod materion cyfoes drwy gyfrwng yr iaith".

Disgwylir i'r cyfarfod cyntaf o Cwlwm Busnes gael ei gynnal ar 20 Mai. Am fwy o fanylion, cysylltwch â Vyvyan Davies ar 227226, neu Dafydd Hampson-Jones ar 394021, neu Ceri Preece ar 224871.

RYGBI CRYTS

## CRICCS AR EU CANFED

**CYHOEDDODD** Clwb Rygbi Ieuenctid Cymry Caerdydd bod eu rhengoedd wedi chwyddo i 100 o aelodau. Cofrestrwyd y canfed aelod ar gychwyn trydydd tymor swyddogol y clwb. Erbyn hyn mae 51 o'r aelodau rhwng 7 ac 11 oed, a 49 rhwng 11 ac 16 oed.

Mae'r aelodau i gyd yn siarad Cymraeg ac yn mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg yng Nghaerdydd, y Bontfaen, y Barri, Penarth, Caerffili, Pontypridd a Llantrisant.

Mae CRICC yn awyddus i ddenu hyd yn oed mwy o chwaraewyr i'w sesiynau bob bore Sadwrn ar feysydd Ysgol Glantaf yn Ystum Taf am 11.00am.

GOLFF DINESIG

## GOLFFWYR Y GWANWYN

**AM 1.30PM,** ddydd Iau 15 Ebrill, bydd Cymdeithas Golff y Ddinas yn cynnal eu gornest wanwyn yng Nghlwb Golff Cradoc yn Aberhonddu ar gyfer tlws Hugh James Jones a Jenkins. Ar ôl y rownd bydd swper a seremoni cyflwyno'r tlws.

Y BRIFWYL

## EISTEDDFOD 2000 YN Y DDINAS?

**MAE'R DINESYDD** ar ddeall fod trafodaethau wedi eu cynnal i ystyried y posibilrwydd o ddod â'r Eisteddfod Genedlaethol nôl i Gaerdydd yn y flwyddyn 2000.

Hwn fyddai'r trydydd tro i'r Eisteddfod ymweld â'r brifddinas ers 1960. Bu'r brifwyl yma y tro diwethaf ym 1978, a byddai'n briodol iawn – yn ôl rhai – pe bai'n dychwelyd yma ar droad y ganrif newydd.


Dywedodd Emyr Jenkins, Cyfarwyddwr yr Eisteddfod, wrth y Dinesydd, "Mae 'ma geisiadau ysgrifenedig wedi dod o'r gorllewin pell – mae'r diddordeb o ardal Tyddewi a Llanelli wedi ei fynegi ar bapur. Rwy wedi clywed am ddiddordeb o ardal Caerdydd, ond does dim byd swyddogol ar bapur".

CAPEL Y TABERNACL

## Y BEDYDDWYR YN BANIO'R DINESYDD

**GWRTHODODD** blaenoriaid capel y Tabernacl â gadael i rifyn mis Mawrth o'r Dinesydd gael ei ddosbarthu yn y capel oherwydd i'r brif erthygl ar y dudalen flaen adrodd am sefydlu Cylch, cymdeithas Gymraeg newydd yng Nghaerdydd i bobol hoyw.

Dywedodd Eurig Evans, un o swyddogion y capel, wrth y Dinesydd bod nifer o aelodau'r capel wedi cwyno am gynnwys y brif stori, ac mewn cyfarfod brys ar ôl oedfa'r bore ar 7 Mawrth, iddynt benderfynu peidio â dosbarthu Dinesydd mis Mawrth, er i rai copïau gael eu rhoi allan cyn iddynt gael eu gwahardd.




Ychwanegodd fod y capel yn anghytuno â'r erthygl "am ei fod yn sôn am bobol hoyw, a ddylai'r Dinesydd ddim roi sylw i'r fath bobol. Maen nhw yn erbyn beth yn ni'n gredu ynddo. Doedd neb yn amau ein bod wedi gwneud yn anghywir".

Pan ofynnwyd i Mr Evans a oedd yn credu y byddai gwarharddiad tebyg i hwn yn troi pobol hoyw oddi wrth y capeli, dywedodd y byddai'n bersonol yn anhapus i fod yn aelod o'r un eglwys â pherson hoyw.

**Deunydd mis Mai i gyrraedd Gwilym Roberts, dan ofal y cyfeiriad uchod erbyn 16 Ebrill**

## LLON A'R LLEDDF

- Ganed mab, Dewi Garmon, i Haf a Glyn Roberts, brawd i Tegid. Pob dymuniad da i'r teulu.
- Ganed merch, Miriam Eilonwy, i Bethan ac Alun ap Brinley. Llongyfarchiadau mawr.
- Llongyfarchiadau i Dylan Hughes ac Elen ap Robert ar enedigaeth mab, Gwilym Sion.
- Ganed merch, Elan Meredith, i Brengain ac Aaron Evans. Pob dymuniad da. Ar yr un pryd, gwellhad buan i'r nain newydd, Ruth Stephens, ar ôl ei salwch diweddar.

## CYMDEITHAS YR IAITH

# PROTESTWYR Â'U TRAED YN RHYDD

**MEWN ACHOS** Cymraeg yn Llys Ynadon Caerdydd rhyddhawyd pedwar o aelodau Cymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ôl protest yn erbyn diffyg defnydd o'r Gymraeg yn siop Dixons yng Nghaerdydd ar 6 Rhagfyr.

Arestiwyd Tim Saunders, Lyn Mererid, Gill Stephen a Raymond Davies am achosi aflonyddwch a rhwystro'r fynedfa i'r siop. Mae Raymond Davies yng gynghorydd Llafur di-Gymraeg ym Morgannwg Ganol.

Disgrifiodd Gill Stephen y penderfyniad fel "buddugoliaeth i synwyr cyffredin am fod gan bawb yr hawl i brotestio mewn cymdeithas ddemocrataidd".

Ers y brotest mae Dixons wedi cytuno â Chymdeithas yr Iaith i sefydlu polisi dwyieithog i'w siopau yng Nghymru.

## CYFARFOD CYHOEDDUS Y DINESYDD

*O dudalen 1*

...â'r gwaith dylunio a chyhoeddi y Dinesydd o'r mis nesaf ymlaen, a sicrhawyd gwasanaeth Gwilym Roberts fel golygydd dros-dro nes ei fod yn dychwelyd i weithio ym Mhatagonia ddiwedd y gwanwyn.

Mae'r alwad yn mynd allan felly am i unrhyw un sydd â pha bynnag gyfraniad posib i'w roi i'r Dinesydd i'w gynnig yn y cyfarfod cyffredinol.

Ar ddiwedd y dydd, beth bynnag yw helbulon ariannol y Dinesydd, mae'n amhosib ei gyhoeddi heb staff brwd a digonol i'w gynnal.

## DYFODOL Y DINESYDD

# DYFODOL Y DINESYDD YN NWYLO'R DARLLENWYR

# Y DINESYDD AR GROESFFORDD ANEGLUR

ROBIN JONES
CADEIRYDD PWYLLGOR Y DINESYDD

**A NINNAU'N** dathlu ugain mlynedd o'r Dinesydd gyda'r rhifyn hwn, fe ddown at groesffordd arall yn ei hanes. Bu sawl croesffordd dros y blynyddoedd, ac yn wir yn ystod fy nghyfnod fel Cadeirydd, ond ar draws ac ymlaen yr aethom yn hyderus. Ymlaen yw'r nod rwan hefyd, ond y tro hwn mae'r arwyddbost ar y groesffordd yn aneglur braidd.

Braf cyhoeddi ein bod wedi sicrhau argraffwr am bris rhesymol, a gwasanaeth gwerthfawr Catrin Lloyd Rowlands am gyfnod byr eto i werthu hysbysebion. Ond o'r groesffordd hon rhaid i ni deithio ymlaen heb Shân Emlyn y golygydd, ac Alun Ceri Jones a'i gwmni Surrexit.

Afraid dweud wrthoch chi cymaint fu cyfraniad Shân dros y blynyddoedd. Hi fu'r ysbrydoliaeth i'n cynnal ni fel pwyllgor, ac i nifer ohonom teg yw dweud bod ymlyniad i'r Dinesydd yn gyfystyr ag ymlyniad iddi hi yn bersonol. Mae hi wedi gwneud diwrnod da o waith ar ein rhan ac yn haeddu ein diolch mwyaf diffuant.

Mae'r diolch yr un mor gynnes i Alun am wedd hollol broffesiynol i'r diwyg tra bu'r Dinesydd yn mynd trwy ddwylo Surrexit.

Wrth ffarwelio â dau felly, pwy fydd yn cyd-deithio â ni o hyn ymlaen? Bûm wrthi yn estyn gwahoddiad i rai dros yr wythnosau diwethaf i dderbyn yr olygyddiaeth. Yn ddelfrydol carwn weld tri neu bedwar yn ysgwyddo'r baich, ac un golygydd felly yn gyfrifol am ddau neu dri o'r deg rhifyn y flwyddyn. Rwy'n mawr obeithio y daw rhai i'r adwy.



Yng nghanol ei brysurdeb yn paratoi i ddychwelyd i Batagonia, mae Gwilym Roberts yn garedig iawn wedi addo golygu rhifyn mis Mai. Yn y cyfamser a gaf i bwyso ar bawb sydd â diddordeb ym mharhad y Dinesydd i ddod i'r Cyfarfod Cyffredinol yng Nghlwb Ifor Bach, nos Fercher 7 Ebrill am 7.30pm, er mwyn i ni weld yr arwyddbost ar y groesffordd tipyn cliriach.

## CYFARFOD CYHOEDDUS

# DYFODOL Y DINESYDD

**NOS FERCHER, 7 EBRILL, 7.30pm**
**CLWB IFOR BACH**

**Mae arnom angen gwaed brwdfrydig newydd - golygyddion a chyfranwyr ac aelodau blaengar i'r pwyllgor. Dewch i gynnig eich gwasanaeth, neu ddim ond eich barn a'ch syniadau**

SYLW

# OFFERYN I BARCHUSRWYDD CAERDYDD?

ALUN CERI JONES

Mae'n drist meddwl bod rhagfarnau gwrth-hoyw cyn gryfed ag erioed ymhlith y gymdeithas Gymraeg gapelyddol barchus yng Nghaerdydd, a bod y rhagfarnau hynny yn cael eu trosi i wahardd dosbarthu'r Dinesydd mewn capel pan fyddwn yn 'meiddio' â sgrifennu prif stori newyddion sy'n trafod cymdeithas hoyw Gymraeg Caerdydd.

Does neb yn gwadu nad yw ffordd o fyw pobol hoyw at ddant nifer fawr o Gymry Caerdydd, ond mae 'na gryn nifer o'n cyd-ddinasyddion Cymraeg sydd yn hoyw ac yn fodlon datgan hynny'n gyhoeddus a di-flewyn ar dafod.

Gwnaed yr awgrym na ddylai'r Dinesydd fynd i'r afael â straeon am y gymdeithas hoyw. Gellid ymestyn y ddadl honno ymhellach i ddweud na ddylai'r Dinesydd adrodd unrhyw newyddion nad yw'n barchus neu sy'n bosib o ddwyn nyth cacwn am ei ben. Ensyniad hynny yw y dylai'r Dinesydd felly fod yn lais i garfan fechan yn unig o Gymry Caerdydd.

Y gwir amdani y byddem oll yn falch o gael newyddion yn y Dinesydd – ie, ar y dudalen flaen hefyd – am agor ysgol Gymraeg newydd, am ehangu neu wella darpariaeth Gymraeg yn y ddinas, ac yn y blaen. Ond nid, mae'n debyg, am sefydlu cymdeithas i garfan o Gymry sydd, er eu tueddiadau rhywiol, â'r un hawl i fyw ac i gael eu lle yn y Dinesydd.

Cofiwch eich bod chi, bob un o ddarllenwyr y Dinesydd, yn leiafrif yn y ddinas hon. Fyddai pob un ohonom yn wyllt gacwn pe bai rhywun yn cwyno i'r Echo am eu bod yn cynnwys stori am sefydlu Cwlwm Busnes Caerdydd, dyweder.

Mae'r Dinesydd yma i ddiwallu anghenion pob un o Gymry Cymraeg Caerdydd. Tasg sy'n ddigon anodd – os nad yn amhosib – ei gwneud am ein bod ni gyd yn meddwl mai ein cornel ni a'n cydnabod ni yw'r unig rai sy'n adlewyrchu Cymreictod Caerdydd. Faint yn union o'r 18,000 o Gymry Cymraeg yng Nghaerdydd ydych chi yn eu hadnabod? Prin ddiferyn yn y môr, os gyfaddefwch chi'r gwirionedd.

Yn lle ymwrthod â'r Dinesydd, dewch yn ran adeiladol ohono. Cyfrannwch eich safbwynt, eich barn, ac adroddwch be sy'n digwydd yn eich cornel chi o Gaerdydd. Peidiwch bob tro â disgwyl cael eich cyhoeddi, mae lle yn brinach na deunydd, ond fydd y Dinesydd ddim yn sôn am eich cornel chi os na rowch chi wybod i ni.

I bwy bynnag sydd am wahardd y Dinesydd am ba bynnag reswm, claddwch eich pennau os dymunwch – fe aiff bywyd Cymraeg Caerdydd ymlaen yn ddigon cryf, ac yn ei amryw ffurf, er eich gwaethaf.

COLOFN SHÂN

# SGWENNU FY NGHOLOFN OLA

SHÂN EMLYN



**"Y MAE** amser i bob peth...", a do fe ddaeth yn bryd i mi sgwennu fy ngholofn ola, anodda, wedi'r holl flynyddoedd o'ch cyfarch.

Wrth feddwl sut yn y byd i'ch cyfarch, y mae pob math o atgofion yn llifo i'r meddwl. Dyddiau cymdeithasol y gosod efo'r siswrn a'r gliw yng nghegin Coed y Pry a chartrefi eraill. Gorchest o gyflawni'r Dinesydd Dyddiol yn Eisteddfod Genedlaethol Caerdydd yn '78. Ac ydach chi'n cofio'r blynyddoedd o Barti Nadolig y Dinesydd? Cnewyllyn ohonom yn cael yr un rysait am gawl cennin – pawb yn dod â'i sosban a lliw cynnwys pob un yn wahanol! Dim i'w wneud ond tywallt y cyfan i Baby Burco a'i droi yn unlliw! Y mins peis, y raffl a'r adloniant byr fyfyr, ac at ei gilydd yr un criw ffyddlon yn mynychu'r noson. Pawb yng nghanol prysurdeb y Nadolig yn ffyddlon gyndyn, yn rhoi o'u hamser prin. Nosweithiau difyr – ymlafnio yn y gegin, ceisio diddosi neuadd foel, a brwsio a golchi llestri gan sicrhau neuadd lân ar y diwedd. Y gweithiwrs wedi ymlâdd ac yn rhy flinedig wrth gloi drws y neuadd, i wneud dim ond pwffian chwerthin yn afreolus. Dyddiau difyr!

A dyma'r Dinesydd yn wynebu cyfnod newydd, a'n gobaith yw y daw bugeiliaid newydd i rengoedd papur bro cyntaf Cymru. Fy mraint yw manteisio ar y cyfle hwn i ddiolch i chi un ac oll, yn ddarllenwyr, yn golofnwyr cyson, y rhai y gallwn ddibynu arnynt yn achlysurol. Fiw i mi enwi neb, dim ond diolch am gael dod i adnabod cynifer – o'r Dosbarthwyr i'r Swyddogion, o'r Croeseiriwr i'r Cartwnydd a phawb arall o ganol prysurdeb bywyd ymatebodd i'm cri.

Pwy bynnag fydd fy olynydd, gobeithio – yn ogystal â rhwystredigaethau lu – y caiff gyfoeth o brofiad a'r ehangu ar fywyd cymdeithasol ag a gês i. Can diolch i chi i gyd. Pob hwyl i'r Dinesydd, a byddaf – er ar yr ymylon – yn para â'r un ymlyniad a'r un diddordeb yn hynt a helynt y Dinesydd.

Dymuna Surrexit ddiolch o galon i bawb fu'n ein cynorthwyo dros y ddwy flynedd ddiwethaf i gyhoeddi'r Dinesydd, ac yn benodol diolch yn fawr i Max Moody yn Treforest Printing fu'n gyfrifol am y gwaith argraffu, i Catrin Lloyd Rowlands am ei horiau meithion dros y ffôn yn casglu hysbysebion i dalu am y Dinesydd, i Elgan Davies yn Afal am ei gymorth gyda gwaith biwro, i Dafydd Wyn Jones am ddarllen y proflenni o fis i fis, i'n hysbysebwyr, i Shân Emlyn y golygydd ac i bwyllgor y Dinesydd.

**Penblwydd Hapus Ddinesydd**

**TANYSGRIFIWCH £15 I DINESYDD 2000**

*Dymunaf gyfrannu'r swm isod yn flynyddol i Dinesydd 2000*

☐ £15

☐ swm arall (nodwch faint) £ ____

Enw: ____

Cyfeiriad: ____

Rhif ffôn: ____

Dymunaf dalu â siec ☐ Ticiwch yma os dymunwch gael derbynneb am eich siec ☐

archeb banc ☐ (llenwch isod)

**Archeb Banc**

I Fanc ccc ____

Cangen ____

Byddwch cystal â thalu i Fanc y National Westminster, 10 Heol Hendre, Pencoed, Penybont ar Ogwr, Morgannwg Ganol CF35 5NW (Rhif côd didoli 60-16-48) i gredyd Dinesydd 2000 rhif 56401388, y swm o £ ____ i ddechrau ar ___/___/___ ac wedyn bob blwyddyn/6 mis (dilëwch fel bo'r angen) hyd nes y derbyniwch rybudd pellach gennyf/gennym, a debydu fy/ein cyfrif yn unol â hynny.

Cyfrif i'w ddebydu ____

Rhif y cyfrif ____

Llofnod(ion) ____

Dyddiad ____

**Llenwch y ffurflen, ei rhoi mewn amlen a'i dychwelyd at Dinesydd 2000, ℅ Surrexit Cysylltiadau Torfol, Rhadbost - Freepost, Parc Afon, Bridge Road Ystum Taf, Caerdydd CF4 1ZZ**

## A DIM OND Y GWIR...

# GWNELER DY EWYLLYS

ELINOR PATCHELL

"Mae'n rhaid i fi neud fy ewyllys". Pe bai gen i bunt am bob tro y clywais i y gri yna, fe fyddwn ar fy ennill yn fawr. Ond yn rhyfedd iawn, cyfran fechan ohonom sy'n gwneud mwy na sôn.

**• *Pam y dylech chi wneud ewyllys?***

Mae ewyllys sy wedi ei llunio'n gywir yn rhoi tawelwch meddwl llwyr i chi. Gellwch wneud trefniadau ariannol ar gyfer eich partner a'ch teulu, a bod yn siwr y gweithredir eich dymuniad. Os oes gennych chi berthynas sy'n ddibynnol arnoch chi, ffrind, neu hyd yn oed anifail anwes rydych yn dymuno darparu ar eu cyfer, mae'n angen-rheidiol nodi hynny mewn ewyllys.

Yn rhyfedd iawn, nid yw saith o bob deg ohonom byth yn gwneud ewyllys.

Gall hyn achosi pryder a dioddefaint i'r rhai sy'n goroesi, ac mewn rhai achosion gall achosi caledi mawr.

Ond yn dristaf oll, nid yn ôl dymuniad yr ymadawedig di-ewyllys y rhennir ei eiddo ar ôl ei farwolaeth. Mae gwneud ewyllys yn gam synhwyrol, ymarferol sy'n dod â thawelwch meddwl yn ei sgil, am mai chi sy'n penderfynu be sy'n digwydd i bopeth sy'n eiddo i chi.

**• *Beth sy'n digwydd os nad oes ewyllys?***

Os nad oes gennych deulu ac heb wneud ewyllys, fe aiff eich holl eiddo i'r Goron. Does gan ffrindiau – hyd yn oed ffrindiau mynwesol – ddim hawl gyfreithiol awtomatig ar eich eiddo, a hwyrach na chân nhw ddim.

Yn syml, mae'r gyfraith yn rhannu'r eiddo rhwng gŵr a gwraig, plant neu berthnasau gwaed yn ôl ei reolau ei hun, ac nid yn ôl eich dymuniad chi.

Fe all y broses o benderfynu pwy gaiff beth fod yn hir a chostus, ac mae'r costau cyfreithiol o wneud hynny yn syrthio ar eich ystad. O ganlyniad mae eich perthnasau'n derbyn llai, neu hyd yn oed ddim byd. Ond yn waeth na dim, nid yn ôl eich dymuniad chi y rhennir yr ystad o gwbwl.

Nid i'ch hoff nith mae'r sampler teuluol yn mynd, achos ddwedsoch chi ddim mo hynny'n glir mewn ewyllys.

Mae rhai pobol yn meddwl – yn ddisail mae arna i ofn – fod popeth yn mynd i'r gŵr neu'r wraig neu'r partner os nad oes ewyllys. Mewn gwirionedd, os oes plant neu berthnasau dim ond cyfran o'r ystad sy'n mynd i'ch priod. Rhaid rhannu'r gweddill yn ôl y gyfraith, ac mewn rhai achosion rhaid gwerthu'r cartref teuluol i dalu'r gyfran y mae gan y plant neu'r perthnasau yr hawl iddi.

Heb ewyllys, nid y chi sy'n dweud pwy gaiff beth. Mae'n bwysig bod eich dymuniadau chi yn cael eu gweithredu ar ôl eich marwolaeth.

**• *A oes angen cyfreithiwr?***

Mae'n ddoeth ymgynghori â chyfreithiwr. Mae llunio ewyllys iddo ef yn fater syml. Yn y rhan fwyaf o achosion ni chymer fwy nag awr.

Byddwch yn arbed arian gydag ewyllys home made, ac fe allwch brynu ffurflen brintiedig o'r siop bapurau. Ond allwch chi fod yn siwr ei bod yn gywir, yn ymdrin â phob posibilrwydd, yn addas i'w phrofi mewn Llys Probate?

Oni bai eich bod yn arbenigwr cyfreithiol, ewch i weld cyfreithiwr a byddwch yn fodlon bod yr ewyllys yn gyfreithiol ac yn gywir. Gofynnwch iddo am amcangyfrif o'r gost – fe gewch syndod pleserus. Fe gewch ganddo gyngor proffesiynol, cyfrinachol, a thawelwch meddwl am bris rhesymol. Pris tipyn llai na'r gost o ddatrys cawdel ewyllys diffygiol aneglur.

## BYD Y BOL

# "Y CLOD, Y MAWL, A'R BRIE"

### Y MIS HWN – CAWS FFRENGIG

DAFYDD SAER



**WRTH I'R** gaeaf droi'n wanwyn, felly hefyd mae'r tymor yn newid wrth i'r cyhoeddwr clodwiw, Alun Ceri Jones, frasgamu a throi'n flodyn llawn ei dwf, gan adael i'r Dinesydd aeddfedu eto wrth wynebu croesffordd bwysig arall yn ei hanes. Mae arnaf innau ddyled bersonol i Alun – o tua 15c am iddo brynu paned o goffi S4C i mi'n ddiweddar – ac hefyd am iddo fod â digon o weledigaeth i roi colofn fisol i mi, pan y byddai eraill wedi bod yn araf i fanteisio ar y cyfle hwn. Bydd y rhan fwyaf o ddarllenwyr y Dinesydd (fi, mam, Alun, a'i rieni) yn gweld eisiau arddull gysodi fachog a gafaelgar Alun, a gobeithiwn weld ei farc ar fywyd diwylliannol cyfoethog Cymry Caerdydd eto yn fuan iawn.

Beth am adael Alun yn awr, a throi yn eiddgar yn ôl i'r gegin. Mae'n amser plannu ers dros fis nawr yn yr ardd, a chan nad yw'n gardd ninnau nemor fwy na gorffwysle goncrit i ysgarthion cathod, manteisiasom ar oblygiad y cyngor i ddarparu rhandir i bob un o'i ddinasyddion, gan logi llain o dir.

Ysywaeth, hyd yma nid oes llawer wedi'i blannu arno, oherwydd ni fedrais gael llyfr Cymraeg o gyfarwyddyd ar y pwnc, er dyfal dwrio. Yr unig lyfr a gefais hyd iddo yn Oriel, siop ardderchog Cyngor y Celfyddydau, oedd *Y Rhandir Mwyn* gan Marion Eames. Er i mi ddarllen y llyfr o glawr i glawr, nid oedd **un** gair am arddio ynddo, nac ychwaith yr un llun.

Fodd bynnag, nid wyf wedi digalonni, achos mae bywyd ar y rhandir yn lliwgar a thangnefeddus. Mae'r rhandirolion eraill yn bobol ddiddorol – pob un ohonynt yn adlewyrchu hanes cosmopolitaidd y ddinas. Dônt o Iwerddon, Latfia, Dwyrain yr Almaen, Groeg, yr Eidal, y Caribî, a Chrwbin – yn eu hofrenyddion personol, i ddisgyn ar helipad swyddogol y rhandir, gyda'u ffônau cludadwy a'u gweision.

Gofynnais iddynt pam yr oeddent wedi dewis y rhandir hwn, a'u hateb un ac oll oedd mai'r Cardiff Bay Development Corporation oedd wedi'u denu gyda'u propoganda am y morglawdd. Ond yn fwy na hynny roeddent eisiau blas ar fywyd Cymru ar ôl darllen *Y Rhandir Mwyn*.

Fel y gallech feddwl, fe ddisgrifiais innau'r realiti iddynt, gan esbonio y byddai'r helipad yn morio mewn carthion o fewn dim o amser pe adeiledid y morglawdd.

## TELEDU



Bydd Lowri Cooke o Benylan, a Rhiannon Dafydd o Landaf, yn ymuno â Kevin Davies ar gyfer mynd i'r afael â Labrinth y Slot 23 ar S4C. Mae'r ddwy yn ddisgyblion yn ysgol Glantaf, ac mi fyddan nhw i'w gweld ar y teledu ar brynhawn Iau, 15 Ebrill.


**Gwasanaeth i Gymry Caerdydd**

*Yn yr Eglwys Newydd*

CAPITAL Travel

ABTA

*Rhan o Gwmni Teithio Richards*

*Medrwch wneud eich trefniadau ar gyfer eich*

**GWYLIAU '93**

*gyda Chymry Cymraeg*

***BARBARA neu ALED***

*Mae'r ddau yn aros am eich galwad – ffoniwch*

**Capital Travel Cyf.**
**11 Heol Penlline**
**Yr Eglwys Newydd**
**Caerdydd**
**(0222) 628661**

# RHIFYN 20 OED Y DINESYDD



Y DINESYDD

RHIF. 1 EBRILL 1973

## Papur Lleol i Gaerdydd A'r Cylch

### CANT OED

Yn ystod mis Mawrth fe ddathlodd Cymro Cymraeg o Gaerdydd ei benblwydd yn gant oed. Mae Mr. J. S. Jones yn enedigol o ardal Crymych yn Sir Benfro, ond gadawodd y fro honno yn ŵr ifanc i ddilyn ei grefft fel teiliwr yn Ferndale, ac yno daeth yn ŵr busnes blaenllaw.

Yn y dau-ddegau ymddeolodd o'r busnes a symudodd ef a'i deulu i fyw yng Nghaerdydd. Yn ystod y blynyddoedd diwetha rhannai ei gartref yn Dorchester Avenue gyda'i ferch, Mrs. Betty Rees. Ond ers wythnosau bellach mae yn Nghartref Nyrsio Tŷ Gwyn, yn Stanwell Road, Penarth.

Mae Mr. Jones yn aelod o Gapel yr Annibynwyr ym Minny Street ac yn ddiacon er 1936. Y capel, ers blynyddoedd mawr, fu canolbwynt ei fywyd, a'i lu cymwynasau i'w gyd-aelodau yn ddihareb yn eu plith. Y mae wedi cadw ar hyd y blynyddoedd yn heini ac yn eithriadol o ifanc ei ysbryd.

Ar ei ganfed penblwydd roedd pawb a'i hadwaenai yn dymuno'n dda i'r gŵr bonheddig annwyl a charedig a oedd wedi ennill lle arbennig iawn yn eu calonnau.

9 Heol Cyfeiliog,
Pontcanna

Norman Williams,
Golygydd y Dinesydd,
44 Heol y Nant,
Rhiwbeina



# YN

## Ugain oed – go dda'r hen bapur. Penblwydd gorfoleddus iti!

Roeddet ti yma cyn i unrhyw bapur bro arall ymddangos, a phan oedd rhai o sêr disglair presennol y bocs yn dechrau gwan lewyrchu. Yn y rhifyn cyntaf (y buwyd yn ddigon rhyfygus i drefnu iddo ymddangos ar ddydd Ffŵl Ebrill) mae llun (yn nalen y plant, pryd hynny dan ofal diwyd WJ Jones) o Dewi Pws, Huw Ceredig a Victoria Plucknett. Roeddet ti yma hefyd cyn i Oriel gael ei sefydlu a chyn bod Warden wedi ei benodi yng Nghanolfan yr Urdd yn Heol Conwy. Erbyn hyn, gyda llaw, byddaf yn cael ambell sgwrs â'r gwrda hwnnw yma ac acw yng Ngheredigion.

# Newid Dinesydd

# RHIFYN 20 OED Y DINESYDD

## PENBLWYDD HAPUS DDINESYDD!

# 20 OED






MERÊD YN EDRYCH YN ÔL

**Ar ôl blwyddyn o drafod, ym mis Ebrill 1973 y cyhoeddwyd y rhifyn cyntaf o'r Dinesydd. Y dyn a gafodd y weledigaeth i'w sefydlu oedd Meredydd Edwards, sy'n bwrw golwg nôl dros y rhifyn cyntaf un...**

Mi welaist ti, pan ddest i'r byd y tro cyntaf, fygwth tynnu capel Ebeneser yn wastad â'r llawr – ond bygythiad a giliodd oedd hwnnw, a'r brifddinas a gafodd lonydd gan Ravenseft (wel, ar un wedd o'r cynllun hwnnw o leiaf). Gwelaist agoriad swyddogol Ysgol Rhydfelen, er ei bod yn hwyliog fynd am ddeng mlynedd cyn hynny. A gwelaist roi gwybodaeth i'r byd a'r betws am briodas David Hywel Evans a Betty Bundock ar Sadwrn 21 Ebrill yng nghapel Undodaidd Allt y Blaca. Adwaenwn Betty yn dda iawn gan imi gydweithio â hi yn y BBC, a gwyddwn am David Hywel Evans (bryd hynny) fel athro ysgol ag ynddo ysfa i actio. Erbyn heddiw, pan fydd sôn amdano yn dy golofnau, Dafydd Hywel yw'r enw. Ti hefyd a roes wybod i sawl un ohonom yng Nghaerdydd fod Hywel a Carys Rees wedi cael ail ferch fach, Catrin Gealy – a roeddwn i, fel yr ydw i o hyd, yn eu cyfri nhw ymysg fy nghyfeillion. Diolch iti, wrth fynd heibio, am fy nghadw mewn cysylltiad 'papuryddol' â chymaint o hen gyfeillion. Mi synnet gymaint wn i amdanyn nhw a'u gweithgareddau; hynny ar dy gorn di.

Ysywaeth mae ambell i gyfaill agos na fedri di mwyach adrodd am ei hynt yn hyn o fyd – daeth i ben ei deithio yn eu hachos nhw. Ond rhoist gyfle, un adeg, i'r 'Hen Bâr' (Gwenlyn Parry i weddill y Cymry) i draethu ei lên am "y busnes ysgrifennu yma", Diddorol oedd ei weld yn dweud hyn am fan cychwyn *Saer Doliau* yn ei brofiad: "fe ddechreuodd y cyfan gyda golygfa arbennig – gweld silffoedd o ddoliau o bob math mewn siop a meddwl y byddai hynny yn 'set' theatr effeithiol". Rhoist gyfle yn ogystal i un o bendefigion ein llên i ddymuno'n dda iti ar dy daith newyddiadurol. Dyma a ddywedodd Saunders Lewis ym Mehefin 1973: "Fe all fod yn gylchgrawn pwysig ac yn organ i uno'r Cymry Cymraeg yn y brifddinas a'i chyffuniau".

Yn union. Dyna oedd dy brif swyddogaeth. Dyna yw hi o hyd. A dyna bennaf broblem ar y cychwyn oedd cael Cymry Cymraeg y brifddinas a'i chyffuniau i anfon ychydig bunnau y flwyddyn i dy gynnal a'th gadw mewn diwyg weddol barchus. Rhyfedd o fyd – dyna'r bennaf broblem o hyd. Does bosib fod dy ddarllenwyr (nid pob un ohonyn nhw, o drugaredd) yn mynd i dy adael i dynnu dy draed atat mewn cywilydd a marw o ddiffyg cynhaliaeth. Tydi, y cyntaf o'th fath! Mae'n fater o hunan-barch trigolion y brifddinas eu bod yn dy gadw'n iach a heini. Yn y cyfamser, menihapi iti.

# clytiau'r cyntaf un

ANNWYL DDINESYDD

## GORAU PO GYNTAF I CHI ORFFEN Â'CH PAPUR DDWEDA I

**YN YSTOD** y flwyddyn ddiwethaf sylwais mai nid papur bro oedd y Dinesydd mwyach ond rhyw gyfrwng i roi erthyglau am y Wladfa er enghraifft, rhyw ychydig am Glwb Ifor Bach a'r gweddill am chwaraeon.

Mi wn fod y capeli'n anfon eu hanes yn gyson i chi, ond byth yr un gair yn cael ei gyhoeddi. Yr un modd dim sôn am yr henoed na'u gweithgareddau. Er hynny mae'r capeli wedi bod yn ddefnyddiol iawn i chi rannu'r copïau o'r Dinesydd fis ar ôl mis.

Ddechrau'r flwyddyn hon roeddwn yn meddwl eich bod yn dechrau gwella – ond mae gweld beth ydych wedi ei roi yn dudalen flaen i'ch rhifyn Mawrth wedi rhoi pen ar y mwdwl, ac ni fyddaf fyth yn cefnogi eich papur mwyach. Os mai dyna ydych yn feddwl sydd o ddiddordeb i Gymry Caerdydd, wel gorau po gyntaf i chi orffen â'ch papur ddwedaf i.

***Susie Evans, Rhiwbeina***

*Wel, am ein rhoi ni yn ein lle! Mae 'na ymateb i'r holl bwyntau sydd gennych uchod yn y golofn Sylw ar dudalen 5 (os ydych chi'n dal i ddarllen....)*

## ANGEN CYMORTH THERAPIWTIG

**AR HYN** o bryd mae gennyf gylch yoga yn ardal Penybont-ar-Ogwr/Port Talbot. Mae gennyf bedwar dosbarth a phob un yn llwyddiannus o safbwynt aelodau a chynnwys. Mae un dosbarth i fenywod beichiog; un arall i oedolion dan anfantais; un i bobol dros 50 oed; ac un arall mewn yoga clasurol.

Erbyn mis Awst bydd rhaid i mi roi'r gorau i'r gwersi hyn am fy mod yn dychwelyd i'r coleg. Os oes gan un o'ch darllenwyr brofiad mewn yoga neu symudiadau therapiwtig, dyma gyfle iddynt gymryd y rhwydwaith yma oddi wrthyf.

Gallaf sicrhau taw dosbarthiadau o safon ydynt, a chryn sicrwydd ynghylch eu parhad

***David Greenslade, Cefn Cribwr***
***0656 740111***

EGLWYS DEWI SANT

# CAERDYDD YN FFARWELIO AG ARCHDDIACON NEWYDD MEIRIONYDD

### Y GWIR BARCHEDIG ROY DAVIES ESGOB LLANDAF

**BYDD YN** chwith colli Saunders a Cynthia Davies o Gaerdydd. Eglwys Dewi Sant fydd yn gweld y golled yn fwy na neb, ond bydd llaweroedd mewn cylchoedd esgobaethol, eciwmenaidd, diwylliannol ac addysgol yn teimlo'r golled hefyd.

O safbwynt yr Esgob, heblaw am feddwl am beriglor newydd i Ddewi Sant bydd angen cael rhywun o ddyfnder ysbrydol i gynghori'r sawl sy'n paratoi i'w hordeinio i'r Weinidogaeth tra'n para i ennill bywoliaeth yn eu swyddi presennol. Ânt ato'n rheolaidd dros gyfnod o bedair blynedd i gael help i asio darllen a gweddi – i gadw siarad am Dduw ac â Duw yn gyson glos.

Fel cadeirydd Coleg Mihangel Sant byddaf yn meddwl am yr olyniaeth ynglŷn â dysgu Cymraeg. Bu Cynthia wrthi'n lew a gwelir ôl ei llafur ar hyd a lled Cymru.

Meirionydd amdani bellach. A ellid meddwl am neb yn fwy cymwys na Saunders i ddilyn yn ôl traed Edmund Prys? Yr oedd hwnnw yn Archddiacon Meirionydd hefyd, ac er iddo farw 370 o flynyddoedd yn ôl i eleni, erys ei enw'n fyw tra cenir ei Salmau Cân.

Wrth ddymuno'n dda i'r Archddiacon newydd a'i briod, gadawn i'r Salmydd drwy wefusau Edmund Prys wneud hynny ar ein rhan:

*Mor beraidd gennyf d'eiriau iach*
*Na'r mêl melysach ydynt.*

Rhwydd hynt i chwi, ac i'r gwaith y'ch galwyd i'w gyflawni.

## SARHAD Y CYNGOR TUAG AT YR IAITH

**AMGAEAF** lungopi o ran o ffurflen sy'n profi'n ddiymwâd i bawb faint o barch sy gan Gyngor ein prifddinas tuag at yr iaith genedlaethol. Anodd fyddai meddwl am sarhad mwy.

***J Thomas Davies, Llandaf***

*Mewn ymateb i lythyr Thomas Davies, oedd yn amgau copi o daflen Your Guide to Council Tax, lle nodwyd y gellid cael copi Cymraeg ohoni ymhlith fersiynau ieithoedd ethnig, ac i sawl galwad ffôn dderbyniwyd gennym, cysylltodd y Dinesydd â Chyngor y Ddinas. Pan holwyd David Barnard, Trysorydd Cynorthwyol Caerdydd am y mater, ar 26 Mawrth, esboniodd bod aelodau'r cyngor wedi mynnu cyhoeddi taflen ar frys, ac mewn gwirionedd nid oedd yr un fersiwn 'ieiafrifol' eto'n barod. Fodd bynnag, syrthiodd ar ei fai a chyfaddef y dylid cael fersiwn Gymraeg yn ddiymdroi, a chyhoeddir honno gan y Cyngor yn y rhifyn hwn o'r Dinesydd.*

YN Y CLYBIAU

# WEDI IDDI NOSI

### ELEN GWYNDAF OWEN

**YN DDIWEDDAR** agorwyd clwb nos newydd yng Nghaerdydd. Sylvester's yn Heol Eglwys Fair yw'r clwb diweddaraf i ddenu'r ifanc eu hysbryd yn y brifddinas.

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf agorwyd nifer o glybiau newydd; newidiodd llawer eu henw, ac aeth nifer o rai eraill i'r wal.

Beth felly sy'n ein denu i sefydliadau o'r fath? Noson wyllt o ddawnsio, yfed a chymdeithasu? Yn sicr mae'r ddiod gadarn yn elfen allweddol – hebddo mae nifer yn teimlo allan o le, ac i eraill mae gormodedd ohono'n arwain at noson wyllt. Mae'n rhyfedd cymaint o bobol sy'n meddu ar y ddawn o falu awyr ar ôl ychydig vodkas!

Mae'r tensiwn rhwng y dyn a'r ddynes yn y clybiau yn amlwg – unigolion yn gwneud eu gorau i ddod o hyd i gymar am y noson.

Mae clybiau yn ddiweddar hefyd yn cael eu cysylltu ag achosion o drais; nifer o bobol yn cael eu taflu allan am ymladd ac am fod yn feddw – a rhai yn cael eu trywanu ac hyd yn oed eu lladd.

Onder byn yr oriau mân mae'n dechrau tawelu, a does dim yn well na sglodion o Stryd Caroline cyn noson haeddiannol o gwsg!

GWYLIO'R GEINIOG

# CAEL ARIAN YN ÔL

### HUW ROBERTS

Ydych chi'n talu gormod o dreth? Rwy'n siwr fod pob un ohonoch yn meddwl eich bod yn talu gormod i'r llywodraeth. Ond mae'n wir hefyd fod nifer o bobol yn talu gormod o dreth heb yn wybod.

Amcangyfrifwyd fod cannoedd o filiynau o bunnau yn cael ei or-dalu'n flynyddol. Y llynedd, er enghraifft, llwyddais i gael ad-daliad o £25,000 i'm cwsmeriaid, ac eisoes eleni mae'r ffigur ad-dalu bron yn £6,000.

Mae sawl rheswm pam y gall rhywun or-dalu treth. Un o'r rhai mwyaf yw bod treth ormodol yn cael ei dynnu o'r llog sydd ar eich arian yn y banc neu'r gymdeithas adeiladu.

Mae gan bawb hawl i lwfans personol yn erbyn treth, ac mae lwfansau eraill am fod yn briod, bod dros 65 oed, a nifer o rai eraill. Os nad yw'r swyddfa dreth yn ymwybodol o'ch hawl i'r lwfansau hyn, neu os ydynt wedi rhoi'r côd treth anghywir i chi, gellir trefnu ad-daliad treth.

Yn y gorffennol roedd gor-daliadau'n digwydd am fod pobol oedd yn talu treth ar gyfradd o 40% yn gallu hawlio mwy o lwfans ar eu morgeisi. Er i hyn orffen ym mis Ebrill 1991 mae dal yn bosib i wneud cais i'r swyddfa dreth am lwfansau am y blynyddoedd cyn hyn os na wnaed hynny yn y gorffennol.

Os fuoch yn hwyr, neu heb anfon eich ffurflenni treth i'r swyddfa dreth ar gyfer rhai blynyddoedd, hwyrach na fydd y swyddfa dreth yn rhoi'r holl lwfansau allwch eu cael i chi oherwydd anwybodaeth, ac fe allech felly or-dalu treth. Credwch neu beidio, mae'r swyddfa dreth yn barod iawn i wneud ad-daliadau dilys yn fuan iawn ar ôl eich cais, ac os yw'n ad-daliad o or-daliad sawl blwyddyn yn ôl, maent hefyd yn talu llog ar yr ad-daliad.

Gyda'r flwyddyn dreth yn dod i ben ar 5 Ebrill, bydd y swyddfa dreth yn anfon eu ffurflenni treth allan yn ystod y mis. Llenwch hi cyn gynted â phosib er mwyn gwneud yn siwr bod angen gwneud cais am ad-daliad. Gall y swyddfa dreth roi help ar y ffôn os oes angen, ac os ydych yn meddwl bod arnynt ad-daliad i chi, siaradwch â'r swyddfa dreth neu â chyfrifydd annibynnol.

# COFIWCH Y CYFARFOD

## Y CALENDR

**3 EBRILL**
Hanner Pei, Clwb Ifor Bach

**4 EBRILL**
*Y Neb o Ddyn*, pasiant y Pasg, 8.00pm, Eglwys y Crwys

**6 EBRILL**
*Meddygon Myddfai*, Dr Morfydd Davies, Cymdeithas Carnhuanawc Clwb Ifor Bach

**7 EBRILL**
Cyfarfod Cyffredinol Agored y Dinesydd, Clwb Ifor Bach

**7 EBRILL**
Canolfan Dysgu Cymraeg i Oedolion, cwrs cefndir yn Llanbedr Pont Steffan. Manylion oddi wrth Richard Lewis, 22 Heol y Parc, Caerdydd. Ffôn 390980

**10 EBRILL**
Pla Coffi Pawb, Clwb Ifor Bach

**17 EBRILL**
Steve Eaves, Clwb Ifor Bach

**20 EBRILL**
Cymrydorion Caerdydd yn ymweld â Chymrydorion y Barri

**23 EBRILL**
Syrcit gomedi Cymru, Clwb Ifor Bach

**23 EBRILL**
*Swing, Jazz a Razzmatazz*, Baroc, Theatr y Sherman

**24 EBRILL**
Tŷ Gwydr, Clwb Ifor Bach

**24 EBRILL**
Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Protest Dorfol dros Drefn Addysg i Gymru, 2.00pm y Swyddfa Gymreig

**29 EBRILL**
*Pobol Godre'r Mynydd Du* Islwyn Gus Jones, Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina, Llyfrgell Rhiwbeina, 8.00pm

**30 EBRILL-1 MAI**
*Dawns y Dodo*, Theatr Gorllewin Morgannwg, yn Theatr y Sherman

**8 MAI**
Maffia Mr Huws, Clwb Ifor Bach

**10 MAI**
*Dylanwad Ymchwil ar Beirianwaith Sifil*
yr Athro Roy Evans, y Gymdeithas Wyddonol, Clwb Ifor Bach

**11 MAI**
Helfa Hanes Caerdydd, Nic ap Glyn Cymdeithas Carnhuanawc Clwb Ifor Bach

**15 MAI**
Cymrydorion Caerdydd gwibdaith dan ofal y Parch Ifor Rees

**15 MAI**
Diwrnod Agored Canolfan Rhydfelen yng Nghwrtycadno. Bws yn gadael Rhydfelen am 8.30am. Tocynnau yn £3

### SHERMAN

## NOSON FAROC YN Y SHERMAN





• Baroc: Betsan a Malcolm Perrett, Gill Elfyn, ac Andrew Matthews, a Gillian Elisa

**AR ÔL** eu hymddangosiad llwyddiannus yn Neuadd Dewi Sant y llynedd, bydd y grŵp lleisiol Baroc yn cyflwyno noson o Swing, Jazz a Razzmatazz yn y Sherman nos Wener, 23 Ebrill.

Yn ymuno â Baroc am y tro cyntaf fydd Gillian Elisa, ac mae meddwl am ymuno mewn noson sy'n cyfuno comedi, swing a big band – sy'n anghyffredin yng Nghymru – yn apelio'n fawr iddi.

Bydd y noson hon yn ddechrau cyfnod prysur i Baroc, gyda pherfformiadau'n dilyn mewn gwyliau cerddorol, ac fel rhan o gyfres *Night Out* Cymdeithas Celfyddydau Deddwyrain Cymru. Byddant hefyd yn agor clwb cabaret newydd yng Nghaerdydd ym mis Mai.

### CYMDEITHASAU

## CYMRY RHIWBEINA'N CWRDD YN GYSON

**TRA ROEDD** Gwilym Roberts ym Mhatagonia, derbyniodd lythyr gan Mair Dyfri Jones o Riwbeina yn sôn am yr angen am sefydlu Cymdeithas Gymraeg yn y pentre.

Felly ar nos Iau, 29 Hydref y llynedd cynhaliwyd cyfarfod yn llyfrgell Rhiwbeina pan siaradodd Gwilym Roberts am ei brofiadau yn y Wladfa. Daeth tua 50 ynghyd, ac ar ddiwedd y noson penderfynwyd sefydlu Cymdeithas Gymraeg Rhiwbeina.

Ers hynny cynhaliwyd cyfarfodydd misol, ac eisoes daeth Owen John Thomas, Emyr Jenkins a Dafydd Huws i sgwrsio â'r gymdeithas, a chynhaliwyd cymanfa ganu Gŵyl Dewi yng Nghapel Beulah ar 28 Chwefror.

Roedd y capel yn llawn, gydag Alun Guy yn arwain a Brian Evans wrth yr organ, a phlant o Glantaf yn ffurfio cerddorfa. Llywyddwyd y noson gan y Parch Huw Ethall, a bu disgyblion Ysgol y Wern yn adrodd.

Bydd y gymdeithas yn cwrdd nesaf ar 29 Ebrill yn y llyfrgell, yng nghwmni Islwyn Gus Jones.

### Y PASG

## PASIANT Y CRWYS

**BYDD** Cymdeithas Ddrama'r Crwys ac aelodau ifanc yr eglwys yn cyflwyno'r drama basiant Y Neb o Ddyn fel rhan o weithgareddau Pasg y Crwys, nos Sul y Blodau, 4 Ebrill am 8.00pm.

Mae'r pasiant yn myfyrio ar y di-ddyneiddio o'n cwmpas heddiw, o'i gyferbynnu â Dioddefaint Crist.

### GWYL GORAWL CYMRU




## Y CÔR AR Y BRIG

**CÔR CYMYSG** Caerdydd enillodd gystadleuaeth y corau cymysg eleni a ddarlledwyd yn ystod mis Mawrth gan HTV Cymru. Yn y llun uchod mae Gwawr Owen, arweinydd y côr yn derbyn gwobr y côr gan Alun Daniel o Awdurdod Datblygu Cymru. Ffurfiwyd y côr ar gyfer prifwyl Aberystwyth y llynedd lle buont yn fuddugol yn y gystadleuaeth i gorau cymysg yn eu perfformiad cyhoeddus cyntaf.


## RHIANEDD CWM RHYMNI

Ydych chi'n joio canu ac yn hoffi cymdeithasu? Os felly beth am ymuno â Rhianedd Cwm Rhymni am hwyl ar gân.

**Cysylltwch â: Siân (0222) 889295, Rhian (0495) 226051 neu Gaynor (0443) 814079**

# CLWB IFOR BACH

**11 HEOL WOMANBY, CAERDYDD CF1 2BR**
**0222 232199**

## LIMERIG A CHRICED I GYMREIGIO'R FRO

### LIMERIG Y DATHLU!

Mewn gornest o Dalwrn y Beirdd a gynhaliwyd ychydig flynyddoedd yn ôl bellach, ysgrifennwyd englyn gan Dic Jones ar gyfer y Clwb. Erbyn hyn mae'r gerdd i'w gweld wedi ei fframio ac yn addurno bar y lolfa. I'r rhai ohonoch sy'n anghyfarwydd â bar y Clwb, dyma hi:

*Nid maswedd y gyfeddach –*
*nid y gwin*
*ond gwerth y gyfeillach,*
*Y mae gwin sy'n amgenach*
*Yn stôr yng Nglwb Ifor Bach*

Fel rhan o ddathliadau dengmlwyddiant y Clwb, rydym yn awyddus iawn i gael partner i'r englyn hwn y tu cefn i'r bar – nid englyn arall na chywydd mawreddog, ond limerig fach seml. Felly dyma wahoddiad i chi ddarllenwyr llengar y Dinesydd i ymuno yn y gystadleuaeth fawr. Yn syml iawn, lluniwch limerig yn dechrau gyda'r llinell:

*Mae Ifor yn dathlu eleni*

Anfonwch eich limrigau i'r Clwb gynted â bo modd. Bydd potel o siampaen i'r enillydd, heb sôn am y fraint o weld eu campwaith yn addurno waliau'r Clwb!

### CLWB CRICED

Ers sawl haf bellach bu Tîm Criced Clwb Ifor Bach yn cystadlu yng nghynghrair criced canol wythnos Caerdydd. Wrth i ddechrau'r tymor agosau, maen nhw'n awyddus iawn i glywed oddi wrth unrhyw un sydd â diddordeb mewn chwarae i'r tîm eleni. Ffoniwch y capten, Robin Hughes, ar 0222 493808 am ragor o fanylion.

Yn ogystal â chwarae gêmau yn y cynghrair ar wahanol nosweithiau yn ystod yr wythnos, gobeithir hefyd chwarae ambell gêm gyfeillgar ar benwythnosau. Mae cynlluniau hefyd ar y gweill i drefnu taith i ddathlu dengmlwyddiant y Clwb. Mae croeso i chwaraewyr o unrhyw safon, hyd yn oed chwaraewyr Lloegr – ar yr amod eu bod yn siarad Cymraeg!

### CYMREIGIO'N CYMUNEDAU

Ers dros flwyddyn bellach mae cynrychiolwyr canolfannau iaith Cymru wedi bod yn cwrdd yn achlysurol dan adain Uned Cymraeg i Oedolion y Cyd-bwyllgor. Mae hyn wedi golygu bod canolfannau fel Canolfan Iaith Clwyd, Tŷ Tawe, Nant Gwrtheyrn, Canolfan Iaith Merthyr, Gregynog, ac eraill (gan gynnwys y Clwb), wedi bod yn elwa o gyd-drafod materion ymarferol yn ymwneud â sefydlu a chynnal y canolfannau hyn ledled Cymru.

Er mwyn cenhadu ymhellach yn y maes holl bwysig hwn, fe fydd diwrnod arbennig o dan y teitl Cymreigio'n Cymunedau yn cael ei gynnal yng Nghanolfan Iaith Merthyr, ar ddydd Sadwrn 22 Mai. Yn ystod y dydd, bydd cyfraniadau gan unigolion o'r gwahanol ganolfannau, yn ogystal ag arweiniad ymarferol ar faterion cyfreithiol ac ariannol. I'r rhai ohonoch sydd â diddordeb, cysylltwch â Helen Prosser yn CBAC, ffôn 555446.

---

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU — NATIONAL MUSEUM OF WALES

## AMGUEDDFA WERIN CYMRU

Gwahoddir ceisiadau am y swyddi canlynol yn yr Amgueddfa Werin, Sain Ffagan. Cynnwys y dyletswyddau weithio trwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg.

### CYNORTHWY-YDD MYNEDIAD

*Cyflog: Ar raddfa Cynnal Amgueddfaol 5, sef £8,689 (oed 20) yn codi i £9,434 y flwyddyn, yn cynnwys pensiwn.*

Edrychwn am berson cyfrifol gyda phrofiad o drafod arian a thiliau mewn awyrgylch brysur. Disgwylir i'r ymgeisydd fedru weitmo o dan bwysau tra'n parhau bob amser i fod yn gwrtais a gwasanaethgar i aelodau'r cyhoedd.

Cyfeirnod y swydd: CMP/WFM

### CYNORTHWY-WYR SIOP (SWYDDI DROS DRO: CYTUNDEB 2 A 6 MIS)

*Cyflog: Ar raddfa Cynnal Amgueddfaol 5, sef £579.17 (oed 18) yn dechrau ar £695.58 y mis*

Disgwylir i ymgeiswyr gynorthwyo'r Arolygydd drwy roi gwasanaeth i'r cyhoedd a gweithredu'r til, yn ogystal â rhywfaint o waith clerigol. Byddai profiad o weithio mewn siop yn fantais, a thrwydded yrru gyfredol o gymorth.

Cyfeirnod y swydd:CS2/WFM

*Ffonier y ffôn ateb ar 0222 645511 am fwy o fanylion*
*Dyddiad cau i dderbyn ceisiadau: 8 Ebrill 1993*

---

# MENTER Taf Elái

## SWYDDOG DATBLYGU

Mae Menter Taf-Elai yn gweithio i hyrwyddo'r Gymraeg yn yr ardal. Yr ydym yn chwilio am berson brwdfrydig a threfnus. Y gallu i yrru a thrin prosesydd geiriau yn hanfodol. Gwaith blaenorol gyda grwpiau gwirfoddol neu ym maes cysylltiadau cyhoeddus o fantais.

Penodir ar raddfa SO1 llywodraeth leol (£15,864 hyd at £16,920). Ceisiadau drwy CV a llythyr erbyn 16 Ebrill i'r cyfeiriad isod. Manylion pellach ar gael hefyd:

Helen Prosser, Menter Taf-Elai, 33 Y Stryd Fawr,
Tonyrefail, Morgannwg Ganol CF39 8PH
Ffôn: 0443 671577

---

## PLAID LAFUR CYMRU

Mae swydd ran-amser dros dro dros gyfnod mamolaeth yn wag ym Mhrif Swyddfa Plaid Lafur Cymru ar gyfer Ysgrifenyddes/Ysgrifennydd i gynorthwyo'r Gweinyddwr a thîm bychan o Drefnwyr. Mae cyflymder teipio da (o leiaf 60 gair y funud), sgiliau llawfer (100 gair y funud) a phofiad o brosesu geiriau yn hollol hanfodol. Disgwylir symbyliad, cymhwysedd eang, a'r gallu i weithio'n dda dan bwysau. Byddai bod yn aelod o'r Blaid Lafur yn fantais.

**Cyflog: £10,846 pro rata**
**Oriau: 11.¾ dros 2 ddiwrnod yr wythnos**

Y swyddi gychwyn ym mis Ebrill ac i ddod i ben ddiwedd mis Hydref.
Am fanylion pellach a ffurflen gais cysylltwch â:
**Marlene Rickards, Plaid Lafur Cymru, Transport House,**
**1 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF1 9HA. Ffôn: 0222 398567**
**Dyddiad cau ar gyfer ffurfleni gais, ddydd Mercher 14 Ebrill 1993**

# COFIWCH Y CYFARFOD

O GWMPAS

## O DON-DU I DONETSK

NIA HALL WILLIAMS

**FIS HYDREF** diwethaf daeth Lyudmilla Vasilyeva a Nadezha Metalnikova, swyddogion yn Amgueddfa ac Archifdy Donetsk yn yr Wcrain, i ymweld â Chymru. Ar ôl taith brysur yn gymysg o ymweliadau proffesiynol a chyfle i weld y wlad, fe'u gwahoddwyd i de-parti ffarwel yng Nghaerdydd, ac yno torrwyd cacen wedi ei haddurno ag eisin glas a melyn, lliwiau'r Wcrain. Roedd llaw Iorwerth Jones o King's Road, Treganna, ar y gyllell yn torri'r gacen, ac mae'r rheswm am ei bresenoldeb y diwrnod hwnnw hefyd yn egluro'r rheswm am ymweliad Lyudmilla a Nadezha.

Swyddog yn Archifdy Morgannwg yw Susan Edwards a chanddi hi y cafwyd yr hanes. Meddai "Dyma'r gŵr a fu'n gyfrifol am awgrymu i mi y dylwn fynd ati i ymchwilio hanes Donetsk (neu Hughesovka, fel yr oedd gynt), y dref a sefydlwyd yn ystod y ganrif ddiwethaf gan John Hughes o Ferthyr.

"Mae Mr Rees wedi gwneud llawer o waith gwerthfawr i mi fel gweithiwr gwirfoddol, ac ym 1984 roedd yn pori drwy hen gofrestri plwy ar fy rhan. Yn eglwys y plwy yn Nhondu, ger Abercynffig, daeth o hyd i gofnod bedydd dwy chwaer – Alice Jane, 10 oed a Sarah Anne, 8 oed. Enw'r tad oedd George Floyd, engine fitter. A'i gyfeiriad, 'Hussoffka, Russia. Visiting now at Ton-du'.

O'r darganfyddiad hwnnw y deilliodd fy niddordeb i mewn digwyddiad rhyfeddol iawn yn hanes Morgannwg, gan arwain yn y pendraw at sefydlu'r casgliad o ddogfennau yn y swyddfa, ac wrth gwrs at ymweliad ein cyfeillion o Donetsk."

Mae hanes John Hughes yn weddol hysbys erbyn hyn. Ym 1870 fe'i wahoddwyd gan lywodraeth yr hen Rwsia i sefydlu diwydiannau newydd yn yr Wcrain. Aeth yno i unigeddau'r Steppe, gan ddethol rhai o weithwyr gorau'r pyllau glo a'r gweithfeydd dur yn ne Cymru i'w ganlyn – gan gynnwys, o bosib, George Floyd.

Daeth llawer o'u debyg yn eu holau i Gymru pan wladolwyd y diwydiannau ym 1917, ond ers i Susan Edwards a'i chydweithwyr gychwyn ar eu gwaith ymchwil, mae'r Archifdy wedi dod o hyd i dros fil o eitemau – yn lythyrau, dogfennau a lluniau – yn ymwneud â'r gweithwyr gwreiddiol, eu teuluoedd a'u disgynyddion. Ac mae'r casgliad yn cynyddu'n gyson gyda phobol Donetsk yn cadw mewn cysylltiad agos â nhw ac yn dyheu am unrhyw wybodaeth am eu cyndeidiau.

Does dim pall, chwaith, ar ddiddordeb Iorwerth Rees yn Hughesovka. Bellach mae wedi ymddeol i'w hen gartref yn King's Road ac yn ymddiddori hefyd ym mhopeth Cymraeg a Chymreig. A phwy â ŵyr, efallai y daw eto ar draws rhyw gofnod fydd yn ysgogi gwaith ymchwil tebyg yn y dyfodol.


**GWERSI FFIDIL**

**Gwersi gan chwaraewraig broffesiynol**

**Rhif ffôn 345083**



**GITARAU AR WERTH**

GIBSON 335
1971, walnut, ardderchog
£649

GIBSON LGO
c1940, gitâr acwstig
£529

EPIPHONE TRIUMPH
c1940, gitâr f-hole, wedi ei chwarae gan Arfon Haines Davies; gwerthfawr a chain iawn
£299

PEAVEY PATRIOT
80au; addas i ddechreuwr ond yn offeryn proffesiynol
£169

Rhy ddrud?
Gwnewch gynnig!
Ffôn 0222 340877


PENBLWYDD HAPUS DDINESYDD!

# WYNEB Y DINESYDD








Fe welson ni wyneb Lowri Heledd Francis ugain mlynedd yn ôl yn y rhifyn cyntaf un o'r Dinesydd. Ers hynny ryn ni wedi tyfu gyda hi. Pan ymddangosodd llun ohoni ym 1983 roedd Lowri yn ddisgybl yn Ysgol Melin Gruffydd. Wele hi ym 1993 yn 20 oed, yn dal i fyw adre yn Rhiwbeina, ac yn gwneud gwaith gwirfoddol yn y pentre.

# CROESAIR AP LEWSYN MIS EBRILL 1993 RHIF 128

"Y Croesair Cymraeg sy cystal â chroesair y Times"

Tom Arfon Owen, a ddaeth yn bedwerydd yn rownd derfynol croesair y Times 1992



### AR DRAWS

6 Teimlo'n hunan-fodlon o weld agor gan y fam 'i chol, i'w roi yn drefnus (8)
8 Anadliad caled cyn cyweirio telyn yn peri blinder (6)
9 Diferion o'r gannwyll (4)
10 D yn troi allan i fod yn drythyll (5)
11 "Ai ______ fel rhosyn y grog" (Dafydd ab Edmwnd) (4)
12 Trown straeon Tomos i sôn am ddigwyddiadau lletchwith (6,7)
15 Pentre bach ag enw mawr yn Edeirnion (5-7-3)
17 Un o'r Sowth yn dod â chôr plant o bell 'w, i chwilio ym mhobman (3,3,1,6)
20 Fe all cosi ben tipyn o ysgytiad (4)
22 "______ dilyw, ______ tân" (Emyn Morswyn (5)
23 Uned (o faco, dyweder) (4)
24 Echwyn (6)
25 Sbeleolegwyr o Gymru (8)

### I LAWR

1 Deunydd crai o'r dŵr 'ma (5)
2 Tre prifysgol yr Esgob William Morgan (10)
3 Y pentre mwyaf yng Nghymru, medden nhw (15)
4 Y mae'n crymu mewn parch (4)
5 Huana a Non, a dysgwr hefyd, yn cyd-drefnu i roi chwarae teg i eraill (9)
7 "Nid ______ bach yw dechrau byw" (Eifionydd) (5)
8 Gobeithiaf y byddwch yn delio'n ddoeth â'i hyfdra e (7)
13 Rwy'n amgyffred fod y mater diwethaf yn gwneud sens (10)
14 Miwsig o opera, eithr yn cael triniaeth newydd (9)
16 Fel y ddafad a dreiglodd o ofal y bugail? (7)
18 Un o'r cyfryngau torfol (5)
19 Yn rhannu'r gwynfyd, ac eto'n orffwyll o'i gof (5)
21 Cân (i'r Eos, er enghraifft) (4)


### CYSTADLEUAETH 127

Derbyniwyd 17 ymgais, a'r cyfan ond dwy yn hollol gywir. Yr enw a dynnwyd y tro hwn oedd Eira Jones, Rhydhelyg Avenue, y Mynydd Bychan. Bydd £5 ar ei fordd gyda hyn. Cafwyd atebion cywir hefyd wrth Myfi Cosslett, y Mynydd Bychan; John G Breese, Glanyrafon; Gwenda Hopkins, Llanisien; Margaret Jones, Cyncoed; Meira Shakespeare, Maesaleg, Gwent; Guto Rhys, y Rhâth; Dilys Gunston, Cyncoed; Sylvia Evans, y Maendy; Buddug Roberts, yr Eglwys Newydd; Marged Davies, Llandaf; Michael Francis, Casnewydd; Delwyn Tibbott, Pentyrch; Huana Simpson, y Bontfaen; a Beryl Hall, Cyncoed.

### CYSTADLEUAETH 128

Tocyn Llyfr £5 eto. Enw a chyfeiriad ar ymyl y croesair i gyrraedd Ap Lewsyn, 13 Rannoch Drive, Cyncoed, Caerdydd erbyn 16 Ebrill

### DATRYSIAD 127



## SÊR MIS EBRILL



EIRY PALFREY

### ARIES

Fe allai fod tipyn o greisis yn eich bywyd carwriaethol ar hyn o bryd; da chi peidiwch â bod yn ddiamynedd gyda gwrthrych eich serch neu mi fydd hi'n domino arnoch chi. Canolbwyntiwch ar harddu'ch nyth, wedi'r cyfan, mae hi yn Wanwyn!

### TAURUS

Mae pobol eraill yn debygol o'ch gadael i lawr ar hyn o bryd, ac yn gwrthod cydweithredu gyda chi. Falle bydd raid i chi ohirio unrhyw drefniadau pwysig tan tua chanol y mis, pan fydd yr Haul yn symud i'ch arwydd a dod â'ch lwc yn ôl.

### GEMINI

Mae gofyn i chi fod yn amyneddgar ynglŷn â'ch gyrfa nawr. Falle eich bod wedi cynnig am swydd newydd ac yn disgwyl clywed newyddion, ond go brin y clywch chi smic am wythnos neu ddwy. Defnyddiwch yr amser i roi trefn ar eich sefyllfa ariannol.

### CANSER

Mae'r cartre'n ymddangos yn bwysig iawn yn eich siart ar hyn o bryd – os ŷch chi'n meddwl gwerthu neu brynu fe ddylai'r sêr fod o help mawr i chi. Neu os ydych chi'n meddwl adeiladu estyniad efallai, nawr yw'r amser i wneud y cynlluniau.

### LEO

Cymrwch ofal os ydych chi'n bwriadu buddsoddi'ch miloedd, mae rhai pobol diegwyddor â'u bryd ar eich twyllo. Cymrwch eich amser cyn rhuthro i wario na thrystio neb. Mae hwn yn addo bod yn fis cyhoeddus iawn yn eich bywyd – mae llygad y byd arnoch chi!

### VIRGO

Mae angen tipyn o amynedd arnoch chi ar hyn o bryd, os ceisiwch chi ruthro sefyllfa ddelicet fe allech golli mwy nag y bargeinioch chi amdano. Gwariwch yn ddoeth hefyd, gan fod sawl person diegwyddor am eich twyllo.

### LIBRA

Rych chi am gymryd cam eitha pwysig sy'n ymwneud â'ch iechyd mewn rhyw ffordd – mynd ar ddeiet neu roi'r gore i smygu, neu rywbeth mwy difrifol. Ond beth bynnag yw e, mae e'n sicr o weithio allan yn hwylus iawn.

### SGORPIO

Mae eich planed chi, Plwto, mewn cysylltiad ffafriol iawn â'r Haul ar hyn o bryd. Fe ddylai, felly, rhywbeth pleserus iawn ddigwydd. Rhywbeth y buoch yn gweithio tuag ato ers tro, ac wedi digalonni falle na fydde fe byth yn digwydd. Fe ddaeth yr awr!

### SAGITTARIUS

Yn ystod yr wythnosau nesa 'ma fe ddylech chi gael sawl cyfle gwych i wireddu un o'ch hoff freuddwydion. Chewch chi ddim, wrth gwrs, os nad ofynnwch chi amdano. Ond gyda'ch lwc arferol chi fe ddylai pethau weithio allan yn ardderchog.

### CAPRICORN

Falle fod pethau wedi bod braidd yn rwystredig i chi'n ddiweddar, ond fe ddylai'r darnau syrthio i'w lle cyn bo hir, a'r olwynion ddechrau troi unwaith eto. Mae hi wedi bod yn aeaf eitha anodd i chi, ond daeth eto haul ar fryn.

### AQUARIUS

Os ydych chi'n meddwl cymryd gambl o unrhyw fath yn ystod yr wythnosau nesa 'ma – peidiwch, enillwch chi byth. A chymrwch ofal mawr hefyd rhag i chi golli rhywbeth gwerthfawr trwy esgeulustod neu ladrad.

### PISCES

Fe allai hwn fod yn gyfnod eitha difrifol yn eich bywyd. Mae unrhyw benderfyniad y gwnewch chi nawr yn debygol o gael effaith fydd yn cyrraedd ymhell yn eich bywyd. Efallai y bydd perthynas agos yn creu tipyn o drafferth a phryder i chi.

LYNN JONES

FIMBRA

Buddsoddiadau
Yswiriant Bywyd
Pensiynau

30 Highfields, Llandaf
Caerdydd CF5 2QB
Ffôn 0222 562816

pdag

Pwyllgor Datblygu Addysg Gymraeg

*Mae PDAG yn bodoli er hyrwyddo addysg Gymraeg yn ei holl agweddau, drwy:*

*gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol, yr awdurdodau lleol a mudiadau gwirfoddol ar bolisïau yn ymwneud ag addysg Gymraeg*

*gydlynu gwaith yr holl asiantau sy'n cyfrannu at addysg Gymraeg*

*adnabod anghenion a phennu blaenoriaethau ar gyfer adnoddau ac ymchwil*

*ddosbarthu gwybodaeth*

**Cysylltwch â ni am wybodaeth a chyngor**
**5 Cwrt y Parc, Parc Tŷ Glas,**
**Llanisien, Caerdydd CF4 5GH**
**Ffôn 0222 766877 Ffacs 0222 764466**

pdag